# SL(5)665 – Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 ("y GDCG")

Mae Erthygl 3 o'r GDCG, ac Atodlen 2 iddo, yn rhoi hawliau datblygu a ganiateir mewn cysylltiad â datblygu penodol. Pan roddir yr hawliau hyn, nid yw cais am ganiatâd cynllunio yn ofynnol.

Mae Erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio Atodlen 2 i'r GDCG drwy fewnosod Rhan 6A newydd (mannau tyfu cymunedol) i ganiatáu codi, estyn, newid neu amnewid siediau storio a thai gwydr ar fannau tyfu cymunedol o 62 metr sgwâr o leiaf. Mae'r rhain yn ddarostyngedig i gyfyngiadau sydd hefyd wedi'u nodi yn y Rhan 6A newydd.

Mae Erthygl 4 o'r Gorchymyn hwn yn gweithredu Erthygl 57(1) o Gyfarwyddeb (UE) 2018/1972 Senedd a Chyngor Ewrop sy'n sefydlu Cod Cyfathrebu Electronig Ewrop (ail-lunio) (OJ Rhif L 321, 17.12.2018, t. 36) drwy ddiwygio erthygl 4 o Atodlen 2 i'r GDCG, a Rhan 24 (gweithredwyr cod cyfathrebu electronig) iddo.

Mae Erthygl 4 o'r Gorchymyn hwn hefyd yn gwneud newidiadau pellach eraill i Ran 24 o Atodlen 2, gan gynnwys (ymhlith pethau eraill) cynyddu nifer y systemau antenâu y gellir eu gosod ar rai adeiladau o dri i bedwar, a chynyddu nifer y gweithredwyr cod cyfathrebu electronig sy'n cael gweithredu systemau antenâu ar rai adeiladau a strwythurau o dri i bedwar.

Mae Erthygl 5 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio paragraff H.4 o Ran 1 o Atodlen 2 i'r GDCG, a pharagraffau A.3(b) a B5 o Ran 25 o Atodlen 2 i'r GDCG.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Mae'r Gorchymyn hwn yn cynnwys darpariaethau sy'n gweithredu deddfwriaeth yr UE. Bydd y Gorchymyn hwn yn rhan o gyfraith yr UE a ddargedwir ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (h.y. diwedd y cyfnod gweithredu, ar 31 Rhagfyr 2020).

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**Rhagfyr 2020**